# DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 8 – Dehongli a Darpariaethau Terfynol

### *Atodlen 8 – Ymddiriedolaethau*

297. Mae'r Atodlen hon yn darparu ar gyfer trin ymddiriedolaethau at ddibenion treth trafodiadau tir. Rhennir ymddiriedolaethau yn "ymddiriedolaethau noeth" ac yn "setliadau", a diffinnir setliadau fel ymddiriedolaethau nad ydynt yn ymddiriedolaethau noeth. Mae ymddiriedolaethau yn ymddiriedolaethau noeth pan fo gan y buddiolwr hawl absoliwt i'r eiddo, a'r ymddiriedolwr noeth yn dal yr eiddo fel enwebai. Yma, y buddiolwr sy'n atebol am unrhyw dreth trafodiadau tir. Ar gyfer mathau eraill o ymddiriedolaethau yr ymddiriedolwyr sy'n atebol am dreth trafodiadau tir, a gellir adennill y dreth gan unrhyw un ohonynt.

298. Yn ogystal, mae'r Atodlen yn nodi cyfrifoldebau ymddiriedolwyr setliad o ran darparu ffurflen dreth a datganiad y trafodiad tir, y weithdrefn ar gyfer hysbysu ymddiriedolwyr am ymholiad gan ACC, a'r weithdrefn ar gyfer apelau ac adolygiadau. Mae hefyd yn darparu bod unrhyw gydnabyddiaeth a roddir gan berson yr arferir p#er penodi neu ddisgresiwn o'i blaid yn gydnabyddiaeth ar gyfer caffael buddiant trethadwy sy'n digwydd yn rhinwedd arfer y p#er neu'r disgresiwn.

299. Mae'r Atodlen yn rhoi cyfrif am gyfreithiau tiriogaethau gwahanol mewn perthynas ag ymddiriedolaethau fel bod buddiolwyr ymddiriedolaethau yn yr Alban, neu mewn gwledydd neu diriogaethau eraill oddi allan i'r DU, yn cael eu trin fel pe bai ganddynt fuddiant ecwitïol yn eiddo'r ymddiriedolaeth, os hynny fyddai'r canlyniad o dan gyfraith Cymru a Lloegr.